

18 Rhagfyr 2019

Annwyl Syr/Madam

## Ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion deddfwriaethol drafft y Pwyllgor Cyllid i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft yn cynnig diwygio [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#) (Deddf 2013) mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Codi ffioedd
- Trefniadau cworwm Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
- Trefniadau adrodd SAC
- Materion o ran gosod cyfrifon ac adrodd arnynt
- Terfynau amser ardystio
- Materion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad).

### Y cefndir

Nod Deddf 2013, a ddaeth yn gyfraith yng Nghymru ar 29 Ebrill 2013, oedd cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd) a SAC wrth amddiffyn annibyniaeth a gwrthrychedd yr Archwilydd.

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf 2013 ym mis Mawrth 2019, gan ganolbwyntio ar [faterion a godwyd](#) gan yr Archwilydd a SAC ac agweddau eraill ar Ddeddf 2013 y gallai fod yn fuddiol eu hadolygu.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen diwygiadau i Ddeddf 2013 a chytunwyd i ymgynghori ar y Bil drafft hwn.

Mae rhagor o fanylion am y gwaith craffu ar ôl deddfu a wnaed gan y Pwyllgor ar Ddeddf 2013 ar wefan y Cynulliad:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=27117>.

### Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymgynghoriad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn.



Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, dylech anfon copi electronig ohoni at [SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru).

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **7 Chwefror 2020**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn. Mae [canllawiau](#) ar gael i'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymgynghoriad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

### Datgelu gwybodaeth

Mae [polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth](#) ar gael. Dylech sicrhau eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, gellir gwneud cais am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r Clerc (Bethan Davies [seneddcyllid@cynulliad.cymru](mailto:seneddcyllid@cynulliad.cymru)).

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

